Blackboard
Asesu eich Wiki

Mae'n bosibl graddio'r wikis, ac i'r canlyniadau ymddangos yn y Ganolfan Graddau. Gellir dod o hyd i fanylion ynghylch sut i alluogi'ch wiki i gael ei asesu yn y canllaw "Creu Wiki Newydd”.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn y wiki perthnasol.
Cliciwch ar y botwm Gosodiadau a dewis Asesiadau.

Bydd y sgrin sy'n ymddangos yn rhoi crynodeb bras i chi o'r blogiadau, barnau a sylwadau.

Ceir rhestr ychydig yn fanylach oddi tano, yn dangos cyfranogwyr unigol a dadansoddiad o'u blogiadau.

Sylwer - dim ond y rheini sydd wedi agor y wiki fydd yn ymddangos yn y rhestr hon:

I raddio cyfranogiad, cliciwch ar enw'r myfyriwr yr ydych am roi gradd iddo. Bydd blwch yn ymddangos yn gofyn i chi roi gradd am y cyfranogwr hwn. Cliciwch ar y ddolen Golygu i gael y blwch sy'n caniatáu i chi roi marc i'r myfyriwr hwnnw.

Mae'n bosibl rhoi adborth a rhoi nodiadau graddio, mewn modd tebyg i'r hyn y byddwch yn ei wneud yn y Ganolfan Graddau. Ar ôl rhoi'r wybodaeth angenrheidiol, cliciwch ar y botwm Cyflwyno

Gwybodaeth adnabod ateb unigryw: #1953
Awdur: : Helen
Diweddariad diwethaf: 2016-10-24 18:00

(c) 2021 Swansea University Web Team <myunihub@swansea.ac.uk> | 05-03-2021 12:04